



Syniadau i'r Cyfarfod Mawr (CCB)
Dydd Mawrth 22 Chwefror, 6pm
Zoom

1. Beth mae'r swyddogion yn ei wneud?

Cyfarfodydd datblygu ar gyfer swyddogion.

Swyddog Gyfrifol: Llywydd Undeb

Cyflawnwyd Gan: Nate Pidcock

Manylion:

Dylai swyddogion gael eu dal yn atebol am y gwaith maen nhw'n ei wneud tra byddant yn y rôl. Rwy'n awgrymu ein bod yn creu cyfarfodydd Datblygu Myfyrwyr, lle byddai swyddogion yn cael trafodaeth gyda grŵp bach o fyfyrwyr am eu blaenoriaethau a'u prosiectau cyfredol. Byddai'r rhain yn cael eu hwyluso gan Gadeirydd yr Undeb, ac i recriwtio myfyrwyr ar gyfer y panel, byddem yn defnyddio system debyg i ddethol Rheithgor. Rwy'n credu y byddai'r cyfarfodydd hyn yn helpu i sicrhau bod swyddogion yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn cael cyfle i gael adborth ystyrion gan fyfyrwyr.

2. 5 Swyddog?

Faint o swyddogion sydd eu hangen arnom?

Swyddog Gyfrifol: Llywydd Undeb

Cyflawnwyd Gan: Nate Pidcock

Manylion:

Rwy'n credu y dylem sicrhau bod UMAber, yn y flwyddyn academiaidd nesaf, yn adolygu rolau a chyfrifoldebau ein Swyddogion Llawn-Amser. Rwyf wedi siarad ag Undebau eraill sydd â phoblogaeth myfyrwyr tebyg i ni (oddeutu 8,000) ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt lai o swyddogion, ond maent yn dal i lwyddo rhannu'r llwyth gwaith ymysg ei gilydd. O ystyried y newidiadau cyfredol i brofiadau myfyrwyr a blaenoriaethau prifysgolion, credaf fod nawr yn amser pwysig iawn i ail-werthuso'r tîm, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymorth i bob myfyriwr yn y ffordd orau bosib. Bydd cynnal yr ymchwil hwn hefyd yn ein helpu i benderfynu ai cyflogau swyddogion yw'r ffordd fwyaf effeithiol i UMAber wario ei arian, wrth sicrhau bod yr Undeb yn cyflawni ei addewidion i fyfyrwyr.